**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 5 RHAGFYR 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Meinir James, Elfyn Williams, Janet Knott, Rheinallt Jones, Shan Rees, Jenny Jones, Eifion Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas a Viv Davies

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Tachwedd 2024.**

**5. Cyflwyniad gan Gynllun Blwch Teganau Cyngor Sir Caerfyrddin**

Croesawodd y Cadeirydd Nia Thomas o Gynllun Blwch Teganau Cyngor Sir Caerfyrddin, a roddodd gyflwyniad ar Wasanaethau'r Cynllun. Yn dilyn y cyflwyniad diolchwyd i Nia am ei chyflwyniad a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cynllun yn y Gymuned. Cytunwyd a chyflwynwyd rhodd o £150.00 ar ran y Cyngor.

**6. Materion yn Codi**

1. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
9. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Mynegodd y Cyng Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

10. **PL/04973 - 1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **Arwydd Llangynnwr yn Heol Bolahaul –** Nodwyd bod yr arwydd wedi ei ail-leoli.
12. **Prosiect Plannu Cennin Pedr** – Trafodwyd dyddiad ar gyfer plannu Cwmffrwd gyda diwrnod plannu i'w gynnal ar y 14eg Ragfyr am 10.30yb. Cynigwyd coed hefyd gan y Cyng Tyssul Evans, derbyniwyd y rhain yn ddiolchgar a bydd ystyriaeth o blannu yn cael ei wneud ym mis Ionawr.
13. **Maesglasnant, Cwmffrwd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Gwobrau Chwaraeon Actif** – Derbyniwyd cadarnhad nad oedd yr enwebiad a wnaed ar gyfer Eddie James wedi cyrraedd y rhestr fer.
15. **Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul** – Roedd y Cyngor yn aros am ymateb ar y mater. Nodwyd.
16. **Rhoddion a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd** – Derbyniwyd llythyrau o ddiolch oddi wrth Neuadd Gymuned Llandyfaelog, Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog ac Urdd Gobaith Cymru.
17. **Goleuadau llwybr troed yn Llandyfaelog** – Nodwyd bod y golau ar gopa Bryn Llandyfaelog yn parhau i fod allan o weithrediad.

**7. Gohebiaeth**

1. **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** – Ymgynghoriad: Adroddiad Blynyddol Drafft 2025-2026. Nodwyd.
2. **Llywodraeth Cymru** – Ymgynghoriad: Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru - Adroddiad Modiwl 1 Ymchwiliad COVID y DU. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru** – Adroddiad y Gynhadledd Flynyddol. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cau ffordd dros dro – ar hyd yr C2074 Heol Cwm Burry, Croesyceiliog (SA17 5RA) o'i chyffordd gyda'r C2074 am bellter o 140 metr i gyfeiriad y Gogledd ar ddydd Llun 6ed Ionawr 2025 am gyfnod o ddau ddiwrnod rhwng yr oriau 09:30 a 15:30. Nodwyd.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Llythyr cyflwyniadol gan Swyddog Ymgysylltu Tenantiaeth newydd y Cyngor Sir. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad: Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft o dan y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Cais am dystiolaeth ynglŷn â baw cŵn ar gaeau chwarae ar draws y sir i helpu i asesu maint y mater a gwella Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPOs), a allai gynnwys cyfyngiadau ar gaeau chwarae wedi'u marcio. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru** – Dyddiadau hyfforddiant Tachwedd a Rhagfyr. Nodwyd.
9. **Un Llais Cymru** – Bwletin Newyddion. Nodwyd.
10. **Un Llais Cymru** - Canllawiau E-bost a Chaffael. Nodwyd.
11. **Llywodraeth Cymru** – Arolwg Cynllun Gweithredu Dementia. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru** – 10 peth gorau i'w gwneud i Gynghorau. Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru** – Copi o'r ymateb i Ymchwiliad y Senedd i Rôl a Chyfrifoldebau Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
14. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi Tachwedd 2024 – Mawrth 2025. Nodwyd.

15. **Un Llais Cymru** - Canllawiau Digidol - Storfa Cwmwl. Nodwyd.
16. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Adnewyddiad Cynghorau Tref a Cymuned. Nodwyd.
17. **Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Tŷ'r Cyffredin** – Ymgynghoriad ar ymchwiliad y Pwyllgor ar gydlyniant cymunedol. Nodwyd.

**8. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. **Lloches Bws Bancycapel**
   Nodwyd bod cwteri'r loches eto wedi'u difrodi.
2. **Diffibrilwyr**
   Nododd y Clerc ei fod wedi gorfod prynu batri ar gyfer y Deffibriliwr yn Idole. Cytunwyd taliad o £135.00 a £27.00 TAW i Defib Warehouse.

**9. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio yn mis Tachwedd gyda chost o £616.00 yn cael eu gytuno.

**10. Ffurflen Flynyddol 2023-24**

Derbyniodd y Cyngor y Datganiad Blynyddol ar gyfer y blwyddyn daeth i ben ar 31ain Mawrth 2024 yn dilyn archwiliad gan Archwilio Cymru gyda datganiad 'ddiamod' positif. Roedd y wybodaeth hyn wedi'i hysbysebu yn y Gymuned yn ôl y gofyn.

**11. Rheoliadau Ariannol**

Ystyriodd y Cyngor y Rheoliadau ddrafft yn dilyn adnewyddiad. Cafwyd y rheoliadau eu fabwysiadu fel polisi'r Cyngor.

**12. Digwyddiadau Cymunedol**

1. **Sul y Cofio**

   Nododd y Cadeirydd y trefniadau llwyddiannus a wnaed ar gyfer Sul y Cofio a diolchodd i bawb a gymerodd ran. Nododd y Clerc taliad o £20.00 a wnaed i'r biwglwr a gymeradwywyd i'w ad-dalu.

**13. Cynllunio -** derbyniwyd hyd y dyddiad

1. **Nododd y Cyng Meinir James ei bod wedi gwneud sylwadau ar y cais fel Cynghorydd Sir.**
   **PL/08472** - Estyniad arfaethedig i ystafell arddangos ceir a gwaith cysylltiedig - Pengwyn Court, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LX. Dim gwrthwynebiadau.
2. **Nododd y Cyng Meinir James ei bod wedi gwneud sylwadau ar y cais fel Cynghorydd Sir.**
   **Nododd y Cyng Jenny Jones ei diddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod i ystyried yr eitem.**
   **PL/08469** - Cartref fforddiadwy llai abl arfaethedig - Pontmorlais, Cydweli, SA17 5AN. Dim gwrthwynebiadau.

3. **PL/08401** - Estyniad deulawr arfaethedig yn y cefn gyda throsi rhan o garej yn swyddfeydd - Brynawel, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2NB. Nodwyd mai ail gyflwyniad oedd hwn o'r cais a ystyriwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref. Cytunwyd i ymateb eto i'r Awdurdod Cynllunio yn gofyn, cyn penderfynu ar y mater, am ragor o wybodaeth am natur y swyddfeydd arfaethedig, a oedd yn cyd-fynd â'r ardal breswyl o amgylch yr eiddo ynghyd ag unrhyw faterion a fyddai'n berthnasol gyda defnydd priffyrdd.
4. **Nododd y Cyng Eifion Jones ei diddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod i ystyried yr eitem.**
   **PL/08598 -** Codi storfa faetholion concrid - Cifeithy Uchaf, Cydweli, SA17 5AR. Dim gwrthwynebiadau.
5. **PL/08582 -** Sied wedi'i gorchuddio â dur ar y tir a fydd yn darparu storfa i'm cloddiwr a'm ceir clasurol - Tir yn Eiryth Ann, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DH. Nodwyd tra disgwylir unrhyw sylwadau gan y Gymuned ar y mater.

## 14. Cyfrifon

**a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Tachwedd a costau** | **£751.49** | **£26.00<br>£17.10<br>£7.00<br>£28.30<br>£20.00** | **£849.89** | **£310.20** | | **£539.69** |

2. **Michael Leefe** **£616.00** Atgyweiriwr Tachwedd (gweler eitem 9)
3. **Defib Warehouse** **£162.00** Defib Idole (gweler eitem 8.2)
4. **Cynllun Blwch Tegannau Cyngor Sir** **£150.00** Rhodd (gweler eitem 5)

## 15. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd y canlynol i'r Cyngor Sir
   a. Tipio anghyfreithlon yn Llandyfaelog.
   b. Pyllau dŵr rhwng Bryngors a Garthowen.
2. Nododd y Clerc tipio anghyfreithlon yng Nglanmorlais (a oedd wedi cael ei symud gan yr Atgyweiriwr) a beic a adawyd yn Nhir Gof (a oedd wedi cael ei symud ers hynny).
3. Bydd y Clerc yn adrodd am doriadau coed sydd ar ôl o flaen Tir Gof.
4. Nodwyd cwn strae eto yn ardal Idole.
5. Bydd pyllau dŵr rhwng cyffordd yr A484 (Idole) a Chroesyceiliog yn cael eu hadrodd i'r Cyngor Sir.
6. Nodwyd bod yr arwydd 40mya ar yr A484 yn Cherry Trees yn rhwystro golygfa o'r arwydd yn nodi 'tro o'ch blaen'. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.

7. Nodwyd bod y marciau ffordd yn Llandyfaelog yn parhau i ddynodi cyfyngiad 30mya, tra bod yr arwyddion yn nodi 20mya. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 9fed Ionawr 2025.**